



ADRODDIAD BLYNYDDOL 19/20

Cyflwyniad

Roedd hon yn flwyddyn o newid.

Datblygodd fy swyddfa a Heddlu Gwent brosesau newydd. Maent wedi sbarduno gwelliannau sylweddol yn y ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd. Mae hyn yn sicrhau bod Gwent yn parhau i fod yn lle diogel i fyw ac i weithio ynddo, neu i ymweld ag ef.

Ymwreiddiwyd y broses o aildrefnu'r swyddfa yn 2018/19 yn llawn. Gwelwyd prosesau gweithio diwygiedig a mwy fyth o bwyslais ar graffu ar waith yr Heddlu Gwent. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gwaith y llu yn unol â'm Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae Heddlu Gwent wedi parhau i gyflawni'r gwaith hwn yng nghymunedau Gwent. Mae'r llu wedi gweld newidiadau mawr ar y brig. Mae tîm newydd o brif swyddogion yn canolbwyntio ar amddiffyn a thawelu meddwl ein cymunedau.

Penodais Pam Kelly yn Brif Gwnstabl newydd Heddlu Gwent ym mis Awst. Roedd hyn yn dilyn gwrandawriad cadarnhau gan Banel yr Heddlu a Throseddu. Roedd ei gwybodaeth, ei phrofiad a'i hymroddiad i Went yn amlwg trwy gydol y broses. Ymunodd Dirprwy Brif Gwnstabl newydd, Amanda Blakeman, â Heddlu Gwent ym mis Medi.

Rwyf yn hyderus mai nhw yw'r bobl iawn i ysgogi ein dyheadau ar gyfer plismona yng

Ngwent. Yn ystod y flwyddyn diweddarais y cynllun i adlewyrchu natur gyfnewidiol troseddu yn well a sut mae hyn yn effeithio ar blismona lleol.

Mae natur gyfnewidiol troseddu yn creu heriau sylweddol i blismona. Mae hyn yn anoddach oherwydd bod gwasanaethau plismona yn derbyn llai o gyllid oddi wrth y llywodraeth.

Gellir rhagweld rhai heriau. Er enghraifft, y cynnydd mewn troseddau a alluogir gan ddulliau seiber. Ni ellir rhagweld heriau eraill i'r un graddau. Mae hyn yn amlwg wrth edrych ar droseddau difrifol a chyfundrefnol. Wrth i'r materion hyn esblygu, mae'n rhaid i'n hymatebion esblygu hefyd er mwyn mynd i'r afael â nhw.

Rwyf yn dymuno parhau i weithio gyda phawb sy'n cefnogi ein gweledigaeth ar gyfer Gwent. Gwent sy'n ddiogel. Gwent nad yw'n cael ei llesteirio gan weithgarwch troseddol. Gwent lle mae pobl yn rhydd i fyw y bywydau maent am eu byw, yn rhydd rhag ofn neu gasineb.



Atal Troseddu



Cynlluniau Dargyfeirio

Ym mis Hydref, gwnaethom lansio:

- **Dull System Gyfan y Cynllun Braenaru i Fenywod**; a'r
- **Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar** i oedolion ifanc 18-25 oed



Mae'r ddau wasanaeth yn helpu pobl i osgoi'r rhwystrau mae cofnod troseddol yn eu creu. Ers ei lansiad, defnyddiwyd y gwasanaethau gan:

64%

o'r menywod a atgyfeiriwyd

85%

o'r bobl ifanc a atgyfeiriwyd

Camau Cynnar Gyda'n Gilydd

Dechreuodd rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd yn 2018. Ei nod oedd datblygu ymateb system gyfan tuag at fregusrwydd. Mae swydd newydd ar gyfer **hyfforddwr amlygiad i niwed** wedi cael ei chreu yn Heddlu Gwent. Mae hyn wedi arwain at hyfforddiant Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod ar gyfer:

554

o swyddogion a staff yr heddlu

246

o staff o asiantaethau partner

Ystafell Reoli'r Llu

Mae **Uwch Ymarferydd Diogelu** yn gweithio yn Ystafell Reoli'r Llu. Mae hyn wedi arwain at leihau ail atgyfeiriadau ar gyfer cymorth.



Ymyrraeth Gynnar 400

o deuluoedd wedi cael cymorth gan ddau brosiect ymyrraeth gynnar newydd



Rydym yn safle

41

allan o

43

o heddluoedd yn nhermau niferoedd isaf y troseddau sy'n gysylltiedig ag arfau

Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol

Gwnaethom fuddsoddi dros **£270,000** mewn dau gynllun peilot newydd i gefnogi plant 11-17 oed a'u teuluoedd. Darparwyd cymorth uniongyrchol i **70** o blant a'u teuluoedd neu ofalwyr. Cyflwynwyd dros 500 o sesiynau cymorth.

Llwyddodd y **prosiect trais difrifol** i wneud y canlynol:

Cynnal sesiynau ar gyfer

6,877

o blant ysgol yng Ngwent

Gwelliant o

89%

mewn presenoldeb yn yr ysgol

Gostyngiad o

89%

mewn troseddu

Gwelliant o

100%

mewn iechyd meddwl a lles

Cronfa Gymuned yr Heddlu

Nod Cronfa Gymuned yr Heddlu yw galluogi plant a phobl ifanc yng Ngwent i fod yn ddiogel, yn iach ac yn hapus.

- Derbyniwyd **20** o geisiadau
- **Wyth** cais llwyddiannus
- Dyfarnwyd cyfanswm o **£252,182**
- Dyfarnwyd cyfanswm o **£45,959** i ddau sefydliad am ail flwyddyn



Swyddog arwain

Gwnaethom adolygu dull **atal troseddu** Heddlu Gwent fel blaenoriaeth yn y Cynllun yr Heddlu a Throseddu.

O ganlyniad, crëwyd swydd **arweinydd strategol** ar gyfer atal troseddu.



SBOTOLAU:



Trefnodd Urban Circle 'Summer Fest' yn Nhŷ Tredegar ym mis Awst. Dyfeisiwyd a threfnwyd yr ŵyl gan bobl ifanc 13–25 oed yn rhan o brosiect U-Turn, Urban Circle. Mae'r prosiect hwn yn derbyn cyllid gan Swyddfa'r Comisiynydd. Mae'r prosiect yn defnyddio'r celfyddydau creadigol i fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol sy'n effeithio ar bobl ifanc yng Nghasnewydd.

Enillodd y bobl ifanc yn nhŷ y digwyddiad gymwysterau stiwardio a chymorth cyntaf. Cwblhaodd oddeutu hanner y tîm achrediadau

diogelu a gwaith ieuencid hefyd. Hefyd, trefnodd Urban Circle ddigwyddiad cerddoriaeth Calan Gaeaf lle'r oedd dros 200 o bobl ifanc o Gasnewydd yn bresennol. Rhoddodd y digwyddiad rywbeth cadarnhaol i bobl ifanc ei wneud ar noson sy'n gysylltiedig â lefelau uchel o droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.



Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent (GDAS)


Mae fy swyddfa i'n ariannu mwy na 50% o'r 'gwasanaeth ymyrryd adfer integredig' yn GDAS. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

Derbyniodd
1,361
o atgyfeiriadau

Gweithiodd gydag oddeutu
460
o bobl ar unrhyw un adeg trwy gydol y flwyddyn

SBOTOLAU:

Roedd Mike* wedi bod yn troseddu dro ar ôl tro ers nifer o flynyddoedd. Roedd wedi ei ddal mewn cylch o garchar, aildroseddu, a dychwelyd i'r carchar Roedd camddefnyddio alcohol a chyffuriau yn sbarduno ei droseddau. Roedd yn ddigartref am gyfnodau hir hefyd. Roedd gan Mike berthynas wael â'r heddlu. Ni ymgysylltodd â'r tîm Rheoli Troseddwyr Integredig i ddechrau. Parhaodd ei batrwm troseddau. Fodd bynnag, ar ôl llawer o ddyfalbarhad, cyswllt wythnosol a chefnogaeth, llwyddodd y tîm i ennill ei ymddiriedaeth. Roedd hyn yn caniatáu i fesurau ymyrryd gael eu rhoi ar waith. Cytunodd i ddechrau gweithio gyda thîm Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent a'r tîm Rheoli Troseddwyr Integredig. Mae Mike wedi cael cymorth i gael gafael ar fudd-daliadau er mwyn lleihau ei angen i gyflawni troseddau er budd ariannol.



Mae ef wedi cymryd rhan mewn cymorth adfer hefyd er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol. Mae Mike yn dal i ymgysylltu â chymorth ac mae hyn yn gweithio'n arbennig o dda. Nid yw'n defnyddio cyffuriau nac yn camddefnyddio alcohol bellach, ac nid yw ef wedi troseddu ers chwe mis. * Nid ei enw go iawn

Gwasanaethau sydd wedi'u hariannu gan Swyddfa'r Comisiynydd

Rhoddwyd **£300,000** i sefydliadau a gwasanaethau sy'n rhoi cymorth i blant, pobl ifanc ac oedolion yng Ngwent.



Cefnogi Dioddefwyr

Connect Gwent

Derbyniwyd
15,061
o
atgyfeiriadau

Darparwyd
un achos o
gymorth i
1,109
o bobl

Darparwyd
cymorth
parhaus i
1,599
o bobl

Cyfanswm o
2,708
o bobl wedi
cael cymorth

Canlyniad

Creu Adroddiadau

Yn gallu ymdopi ac adfer yn well	679
Yn fwy gwybodys ac wedi ei rymuso'n well ar gyfer gweithredu	624
Gwell iechyd a lles	681
Gwell teimladau o ddiogelwch	640

Adolygiad mewnol

Adolygwyd

y polisi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sy'n seiliedig ar waith

Cymeradwywyd

cynnig i ganiatáu absenoldeb arbennig i gyflogeion sy'n dioddef oherwydd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Swyddi Eirioli

Roedd fy swyddfa'n un o 17 o swyddfeydd comisiynwyr a lwyddodd i sicrhau cyllid ar gyfer dwy swydd **eiriolwr annibynnol ar drais rhywiol** newydd yng Ngwent.



Atgyfeiriadau


Gwnaed **73** o atgyfeiriadau at yr ymarferydd lles yn Connect Gwent am gymorth iechyd meddwl.

SBOTOLAU:

Atgyfeiriwyd Alice* at Connect Gwent i gael cymorth yn sgil ymosodiad domestig. Roedd hi wedi bod yn briod ers dros 30 mlynedd, ond roedd ei gŵr yn rheoli ei harian i gyd a llawer o agweddau eraill ar ei bywyd. Roedd merch hynaf Alice wedi gweld y cam-drin drwy gydol ei phlentyndod hefyd. Roedd Alice yn ofidus iawn yn ystod ei chyfarfod cyntaf. Cytunodd y gweithiwr achosion cam-drin domestig arbenigol y gallai eirioli ar ei rhan. Byddai hefyd yn mynd gyda hi i gyfarfodydd, a'i helpu gydag unrhyw waith papur oherwydd ei bod yn dioddef

o ddyslecsia. Cyfarfu Alice â'r gweithiwr achos nifer o weithiau, a datblygodd gynllun diogelwch a chymorth. Roedd hyn yn golygu bod ganddi rywbeth gweledol i'w helpu i gyflawni ei hamcanion. Cyfarfu'r gweithiwr achos â landlord Alice i drafod ei sefyllfa. Yna, caniatodd y landlord iddi osod larymau a newid y cloeon. Mae Alice yn ysgaru erbyn hyn ac mae hi wedi dilyn fforwm goroeswyr a gynhelir gan Heddlu Gwent. Mae hi'n dweud ei bod yn teimlo ei bod wedi ei grymuso i wneud pethau ar ei phen ei hun. * Nid ei henw go iawn

SBOTOLAU:



Peidiwch â dioddef yn ddistaw.

Don't suffer in silence.

Ymunodd fy swyddfa â Thîm Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent a Heddlu Gwent i lansio ymgyrch ar y cyd. Y nod oedd tynnu sylw at Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac annog pobl sy'n dioddef hyn i ofyn am gymorth. Mae ymgyrch 'Peidiwch â dioddef yn ddistaw' yn annog pobl i adrodd drwy linell gymorth Byw Heb Ofn. Mae hefyd yn cyfeirio pobl at wefan Diogelu Gwent i gael cyngor a gwybodaeth. Mae'r ymgyrch yn annog partneriaid

i ddefnyddio'r adnoddau a grëwyd ac i hyrwyddo'r ymgyrch drwy eu sianelau. Llywiodd cyfanswm o 30 o oroeswyr ei chynnwys a chymerodd rhai ohonynt ran yn yr ymgyrch ei hun. Dechreuwyd cyflwyno'r ymgyrch yn rhannol ym mis Chwefror. Roedd yn cyd-fynd ag Wythnos Ymwybyddiaeth o Drais Rhywiol a hyrwyddo swydd newydd y trefnydd ymgysylltu â goroeswyr. Bydd yn cael ei chyflwyno'n llawn ddiwedd mis Mawrth a dechrau mis Ebrill.

Cydlynnydd Ymgysylltu â Goroeswyr

Yn dilyn argymhellion gan fy swyddfa:

- rëwyd swydd **cydlynnydd ymgysylltu â goroeswyr** newydd (y gyntaf o'i math i heddlu yng Nghymru); a
- chrëwyd **Y Bwrdd Dioddefwyr**



Cymorth Iechyd Meddwl yn Ystafell Reoli'r Llu

Cafodd dros **1,100** o ddigwyddiadau lle byddai swyddogion wedi cael eu hanfon allan eu hosgoi yn ystod y flwyddyn oherwydd bod ymarferwyr iechyd meddwl yn gweithio yn ystafell reoli'r llw.

273 o gyfnodau cadw o dan Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl

870 y mis o geisiadau am wasanaeth

Cynnydd o **9.2%** i mewn ymgynghoriadau iechyd meddwl



Cyfraddau Erllyn

Mae cyfraddau erlyn ar gyfer cam-drin domestig, troseddau rhywiol a threisio yn uwch na'r cyfraddau cenedlaethol (Cymru a Lloegr) ac yn uwch na chyfraddau Cymru:

Math o drosedd	Cenedlaethol	Cymru	Gwent
Cam-drin Domestig	77.5%	77.6%	82.8%
Treisio	65.6%	62.3%	69.3%
Troseddau Rhywiol	83.2%	85.1%	89.4%

Cydlyniant Cymunedol

Uchel Siryf

Dyfarwyd **£55,000** i Gronfa Uchel Siryf Gwent i ddarparu ansawdd bywyd mwy diogel a gwell i bobl yng Ngwent.

Adolygiadau

Darparwyd adolygiad a sylwadau annibynnol i Heddlu Gwent ynghylch 'stopio a chwilio' a 'defnyddio grym'.



Gwiriadau yn y Ddalfa

Roedd **wyth** o wirfoddolwr cynllun ymwelwyr annibynnol â dalfeydd Cynhaliwyd **69** ymweliad dirybudd ganddynt

Derbyniodd **62%** o garcharorion yn y ddalfa ymweliad gan yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd



100% o'r materion a nodwyd gan Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn cael sylw gan Ringyll y ddalfa yn ystod yr ymweliad.

Cadwodd y cynllun ei statws

'cydymffurfio â'r cod'

Lles Anifeiliaid

Wyth gwirfoddolwr Lles Anifeiliaid

11 o wiriadau lles wedi'u cwblhau

Y Gronfa Effaith Gadarnhaol

Mae'r Gronfa Effaith Gadarnhaol yn cyflawni canlyniadau tymor byr cadarnhaol. Mae'r cyllid wedi helpu digwyddiadau i bobl a chymunedau yng Ngwent. Roedd y rhain yn cynnwys gwobrau gwirfoddolwyr, cynhadledd cam-drin domestig a Gŵyl Maendy.

10 gwobr
£9,692.50



SBOTOLAU:

Rhoddais £1,000 o'm Cronfa Effaith Gadarnhaol i Gymdeithas Achub Ardal Hafren. Lleolir y Gymdeithas yng ngorsaf dân Malpas a chaiff ei chriwio'n gyfan gwbl gan wirfoddolwyr. Mae'n helpu Heddlu Gwent i chwilio am bobl sydd ar goll a gyda digwyddiadau ar hyd Aber Afon Hafren. Mae Cymdeithas Achub Ardal Hafren yn darparu cymorth gwerthfawr i Heddlu Gwent a'r gwasanaethau brys.

Mae gorsaf bad achub Cymdeithas Achub Ardal Hafren yng Nghasnewydd yn costio oddeutu £20,000 bob blwyddyn i'w gweithredu. Helpodd y rhodd gyda chostau cynnal cychod, cerbydau ac offer.



Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

SBOTOLAU:

Ymunodd fy swyddfa â'r tîm o Dyfodol Cadarnhaol ar gyfer twrnaint pêl-droed pum bob ochr yng Nghil-y-coed.

Cystadlodd timau o brosiectau Dyfodol Cadarnhaol ledled Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen i fod yn bencampwyr y twrnaint. Yn dilyn diwrnod o chwaraeon o ansawdd uchel, gorffennodd mewn buddugoliaeth i BME Sport Newport (enillwyr dros 16 oed) a Chanolfan Hamdden y Fenni (enillwyr dan 16 oed).



Cyflawni Gwaith Gwent Mwy Diogel

Cyllid ar gyfer **Cydgysylltydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** i Went.

Sefydlwyd hyfforddiant ar gyfer **14** o ymarferwyr a swyddogion yng Ngwent.

Cynhaliwyd adolygiad llawn o'r broses **sbardun cymunedol**.

Dyfodol Cadarnhaol Casnewydd Fyw

Derbyniodd y rhaglen	Cymerodd	Cynhaliwyd	Cynhaliwyd 16
£181,000	1,872	37	o sesiynau adweithiol ychwanegol.
gan fy swyddfa yn 2019/20	o bobl ifanc ran mewn digwyddiadau Dyfodol Cadarnhaol	o sesiynau dargyfeiriol wythnosol	

Canlyniadau Dyfodol Cadarnhaol ledled Gwent

Mwy o ymgysylltiad mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant a gwell sgiliau bywyd. Mae hyn oherwydd:

- Cyfleoedd i wirfoddoli;
- Dilyn cyrsiau;
- Ennill cymwysterau; a
- Dysgu sgiliau megis nofio, coginio a dulliau ymdopi hunanofal.



Addysg Bwrpasol

Cyflwynodd Dyfodol Cadarnhaol raglen addysg arall bwrpasol hefyd a gafodd ei darparu i:

116


o bobl ifanc, sef cyfanswm o

9,164

awr o ddarpariaeth

Wythnos Ymwybyddiaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Trwy gydol Wythnos Ymwybyddiaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol cynhaliwyd ymgyrchoedd ledled Gwent a Chymru gyfan. Cynhaliwyd digwyddiad arddangos terfynol ar y diwrnod olaf. Roedd hwn yn cynnwys Heddlu Gwent, y pum awdurdod lleol a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.



Darparu Gwasanaethau'n Effeithiol



Penodwyd Prif Gwnstabl Pam Kelly yn dilyn cymeradwyaeth gan Banel yr Heddlu a Throsedd



Ffigur ein sefydliad ar ddiwedd y flwyddyn oedd

1,323 o swyddogion heddlu a 122 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu

Cwblhawyd

dau

arolygiad o ffeiliau cwynion




Ymdriniodd yr Uned Ymateb Cyhoeddus

â **238** o achosion

Cyflwynwyd system adolygiadau datblygu perfformiad staff

Dechreuodd y gwaith o adeiladu **pencadlys newydd** Heddlu Gwent



Cynllun busnes

Gorffennwyd

Cynllun Busnes Swyddfa'r Comisiynydd a dechreuodd gwaith ar **feysydd blaenoriaeth ac amcanion**



SBOTOLAU:

Bydd y pencadlys newydd yn costio £32 miliwn. Mae hwn yn dod o gronfa wrth gefn benodol.

Bydd costau cynnal blynyddol y pencadlys newydd £1.1 miliwn yn llai fesul blwyddyn.

Bydd yr adeilad newydd yn llenwi tua hanner ôl troed safle y pencadlys presennol. Bydd yn darparu lle gwaith ystywyth i oddeutu 480 o swyddogion heddlu a staff.

Disgwylir y bydd y gwaith adeiladu wedi ei gwblhau ddiwedd 2021.



Ymgysylltu

Digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned yn yr haf



Roedd Swyddfa'r Comisiynydd yn bresennol mewn **20** o ddigwyddiadau cymunedol

Ymgysylltwyd â mwy na **7,500** o bobl wyneb yn wyneb

Cefnogir ein dull ymgysylltu gan Sefydliad yr Heddlu. Cyhoeddodd ei adroddiad 'Understanding the Public's Priorities for Policing' eleni.

Roedd fy swyddfa yn rhan o'r ymchwil genedlaethol hon.

Cynhaliwyd **pedwar** gweithdy cymunedol yng Ngwent yn rhan ohoni.



Ymgysylltu â Chyllideb yr Heddlu

13 wythnos o ymgysylltiad praesept ac roeddem yn bresennol ar gyfer **25 digwyddiad**

O'r rhain, cynhaliwyd **pedwar** digwyddiad pwrpasol ym mhob awdurdod lleol.

Cynhaliwyd **saith** digwyddiad ymgysylltu ar ddydd Sadwrn ledled Gwent.

Cyflawnodd Swyddfa'r Comisiynydd **145** awr o waith ymgysylltu

Cwblhawyd yr arolwg praesept gan **1,730** o bobl



1,086 arolwg wyneb yn wyneb

“A fydddech chi'n cefnogi'r egwyddor o gynnydd o £2 y mis ar eich treth gyngor (yn seiliedig ar eiddo band D) er mwyn cynnal y ddarpariaeth blismona ar y lefelau presennol?”



Ymateb i'r arolwg

66%
Byddwn

22%
Na fyddwn

12%
Ddim yn siŵr

Cyllid


Cytunwyd ar gyllideb o
£154.54 miliwm
ar gyfer Heddlu Gwent yn 2020/21

£13 miliwm
yn fwy na'r flwyddyn flaenorol

Gwarged bach o
£0.01 miliwm
(0.07%) ar ddiwedd 2019/20

Crëwyd cyllideb gyfalaf o
£26.37 miliwn
ar gyfer 2020/21

Pennwyd cynnydd y dreth gyngor ar **6.82%**



- Swyddogion heddlu
- Staff yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol
- Costau eraill sy'n gysylltiedig â gweithwyr cyflogedig
- Cynllun buddsoddi'r llu
- Adeiladau
- Cludiant
- Cyflenwadau a gwasanaethau
- Digwyddiadau mawr a mentrau rhagweithiol
- Costau eraill

SBOTOLAU:


Eleni, cynyddais braesept y dreth gyngor 6.82% ar gyfer trigolion Gwent.

Mae hyn yn golygu bod yr aelwyd gyfartalog yng Ngwent wedi talu £1.45 yn ychwanegol fesul mis am ei gwasanaeth plismona.

Gwnes hyn ar ôl ystyried achos ariannol Heddlu Gwent ac argymhelliad gan Banel yr Heddlu a Throseddau Gwent.

Gwnaethom ymgysylltu'n helaeth ledled Gwent hefyd. Nododd dros 66% o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon cefnogi cynnydd praesept o hyd at £2 ar eiddo band D.

Roedd yr arian ychwanegol yn caniatáu i Heddlu Gwent gynnal ei fuddsoddiad blaenorol mewn recriwtio. Roedd hefyd yn caniatáu buddsoddi mewn meysydd blaenoriaeth megis amddiffyn plant, cam-drin domestig, trais rhywiol, troseddau casineb, a throseddau cyfundrefnol.



Llywodraethu a Chydymffurfiaeth

Ennill Gwobr Genedlaethol am Dryloywder am y pumed flwyddyn yn olynol



Enillwyd gwobr tryloywder **Comparing Police and Crime Commissioners (CoPaCC) award** am y pumed tro yn olynol.

Gweithiais gyda Heddlu Gwent i ddechrau datblygu **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd newydd.**

Bydd yn nodi ble rydym yn cyflawni ein dyletswyddau statudol, yn ogystal ag unrhyw feysydd cydymffurfio y mae angen eu gwella.

Gwnaethom ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif yn ystod cyfarfod y **Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad** a gynhelir bob tri mis. Mae hwn yn gyfarfod cyhoeddus.



Rhyddid Gwybodaeth


28

o geisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Ymdriniwyd â **96%** ohonynt fewn 20 diwrnod

10 diwrnod i ymateb i gais ar gyfartaledd

Cyhoeddwyd **Adroddiad Blynyddol Rhyddid Gwybodaeth**



Responded to Ymatebwyd i **saith** adroddiad arolygu Arolygiaeth Cwnstabiliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi

Derbyniwyd **tri** Chais Gwrthrych am Wybodaeth



Cadw a Gwaredu



Cymeradwywyd yr Amserlen Cadw a Gwaredu

Derbyniodd pob aelod o staff hyfforddiant diogelu data blynyddol

Adroddwyd am **un** tramgwydd data



Edrych i'r dyfodol

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad blynyddol hwn, mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar y rhan fwyaf o'r byd.

Mae hwn yn gyfnod digynsail ac rydym yn gweld mesurau digynsail. Bydd y mesurau hyn yn arafu lledaeniad y clefyd yn ogystal â diogelu'r system gofal iechyd a thrigolion.

Creodd hyn set newydd o heriau i bob un ohonom, o ran ein bywydau preifat a phroffesiynol.

Hoffwn ddiolch unwaith eto i swyddogion yr heddlu, staff, gweithwyr gofal iechyd, cynghorau a phartneriaid sydd wedi helpu i fynd i'r afael â hyn.

Nid yw wedi bod yn rhwydd i'n swyddogion, sydd wedi bod ar y rheng flaen yn ymdrin â gorfodi'r cyfyngiadau symud.

Mae fy swyddfa wedi gorfod newid llawer o'i harferion gwaith i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol a'm blaenoriaethau.

Mae Covid-19 yn golygu hefyd bod etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a gynlluniwyd ar gyfer mis Mai 2020 wedi eu gohirio tan fis Mai 2021.

Dymunaf roi sicrwydd i'n holl gymunedau fy mod yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau y darperir y gwasanaeth heddlu gorau iddynt dros y flwyddyn nesaf.

Bydd y Cynllun Heddlu a Throseddau presennol yn dod i ben yn 2022, a chynhelir adolygiad er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben tan hynny.

